SIWSHEHT – charity number 1119339

‘Licking Lassa Fever’
Trechu Twymyn Lassa
Yn Sierra Leone

Cynigir y paciau hyn fel gweithgarwch ar gyfer CA2 – 4/Ôl 16 i godi’r ymwybyddiaeth am Dwymyn Lassa. Diben y pecyn hwn yw gwneud disgyblion yn fwy ymwybodol o Dwymyn Lassa, yn fwyaf arbennig yn Sierra Leone. Gellir ei ddefnyddio o fewn gofynion y cwricwlwm statudol a gall gwmpasu agweddau ar:

- Daearyddiaeth (CA2&3)
- DT (CA2)
- PSE& ESDGC
- (CA2, 3, 4, ôl 16)
- ICT (dylid ei gyfuno ar draws y Camau Allweddol)

Mae’r pecyn yn dangos amrediad y meysydd y gellir eu hystyried ymhlith y pynciau hyn.

Ar gyfer CA2 y bwriad yw edrych ar y prosiect fel thema cwricwlwm cyfannol a chynhwysir pecyn-ffoto fel man cychwyn trafodaeth – gyda’r rhai hŷn mae’n gyfle i ddatblygu dolenni adrannol ond dylai pob pwnc allu ymgymryd â’r prosiect fel gweithgarwch cwricwlwm ar ei ben ei hun.

Yn unol â chynllunio cwricwlwm da, cynigir man cychwyn ar gyfer y prosiect yn ogystal â thasg asesu yn y diwedd. Mae angen i ysgolion ofalu eu bod yn talu sylw i’r disgrifiadau o’r lefelau fel bo’r gwaith yn cael ei anelu at ganlyniad wrth i’r

uned ddod i ben. Fel hyn, gellir defnyddio nifer o'r gweithgareddau a awgrymir yn raddol. Rhagwelir y byddai ysgolion wedyn yn ychwanegu eu cynllunio tymor byr i ddatblygu'r amlinelliad mewn gwahanol ffyrdd.

(Os yw'r myfyrwyr yn frwdfrydig, cynigir syniadau ar gyfer codi arian ar y wefan. **Fodd bynnag**, **NID** hybu codi arian yw diben y pecyn hwn ond tynnu sylw ein pobl ifanc at y problemau sy'n wynebu plant mewn rhannau eraill o'r byd).

Awgrym am ddechrau gweithgaredd

Gan ddefnyddio'r Cyflwyniad 'Trechu Twymyn Lassa' (2 yn y pecyn- un er mwyn CA2/3 y llall CA4/Ôl-16) – caiff y disgyblion eu cyflwyno i'r hyn a achoswyd gan yr afiechyd hwn a'r ffyrdd y mae sefydliadau mawr yn ceisio datrys y problemau. Hwyrach y gall eich cangen leol o Soroptimistiaid Cenedlaethol helpu drwy gynnig siaradwr i gyflwyno hyn fel PowerPoint ond mae'r prif negeseion i'w cael yn yr adnodd hwn.

Cyfle am Asesiad Terfynol

Yn ystod y prosiect bydd y disgyblion yn dod i wybod sut mae plant eraill yn byw. Fel cyflwyniad ar y diwedd awgrymir i'r disgyblin gyflwyno'u gwaith naill ai fel cyflwyniad amlgyfrwng neu fel araith i'r holl ysgol; neu hyd yn oed wahodd rhieni a llywodraethwyr. Bydd angen i'r disgyblion fod yn ymwybodol o'u cynulleidfa gan addasu eu gwybodaeth fel y bo'r galw. Gallai disgyblion oedran CA3/4 roi cyflwyniad i gynulleidfa ehangach neu gellid ei ddefnyddio fel darn o waith pontio gyda'r gwaith yn dechrau yn CA3/4 ac yn cael ei gyflwyno i ysgol gynradd gyfagos fel y gall honno wneud prosiect tebyg.

Yn ystod y prosiect mae'n bwysig i'r athro ystyried fframwaith sgiliau 3-19 a manteisio ar y cyfle i roi sylw i ddatblygu'r sgiliau hyn.

SIWSHEHT – charity number 1119339

Ystyried	Cyfathrebu	ICT/ Rhif
Cynllun • Gofyn cwestiynau (i ddeall y broblem) • Adfywio gwybodaeth flaenorol, sgiliau a dealltwriaeth • Casglu gwybodaeth • Pennu'r broses/dull a strategaeth • Pennu meini prawf llwyddiant **Datblygu** • Cynhyrchu a datblygu syniadau • Gwerthuso camgymeriadau a chanlyniadau annisgwyl • Meddwl yn fentrus • Meddwl am achos ac effaith a gwneud casgliadau • Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau • Ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau • Ffurfio barn a gwneud penderfyniadau • Monitro cynnydd **Ystyried** •Adolygu canlyniadau a meini prawf llwyddiant • Adolygu'r broses/dull • Gwerthuso hunan ddysg a meddwl • Cysylltu a meddwl ochrol	**Llefaredd** • Datblygu gwybodaeth a syniadau • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau **Darllen** •Lleoli, dewis a defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddio strategaeth ddarllen • Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd **Ysgrifennu** • Trefnu syniadau a gwybodaeth • Ysgrifennu'n gywir **Sgiliau Cyfathrebu Ehangach** • Cyfathrebu syniadau ac emosiynau • Cyfathrebu gwybodaeth	Darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau **Defnyddio Gwybodaeth Fathemategol** • Defnyddio rhifau • Mesur • Casglu gwybodaeth **Cyfrifo** • Defnyddio'r system rifau • Defnyddio sawl dull **Dehongli a chyflwyno casgliadau** • Siarad am waith a'i esbonio • Cymharu data • Cofnodi a dehongli data a chyflwyno casgliadau

Cam Allweddol 2 dolenni pwnc

Daearyddiaeth	
Sgiliau Pwnc	**Amrediad**
Lleoli Lleoedd 1. Adnabod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau e.e defnyddio cydraddau a chyfeiriadau pedwar ffigwr 2. Dilyn cyfarwyddiadau, amcangyfrif a chyfrifo pellter **Deall Lleoedd** 1. Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau i ddisgrifio, cyferbynnu a gwrthgyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau **Archwilio** 1. Arsylwi a gofyn cwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol 2. Trefnu a dadansoddi i gael atebion a gwneud casgliadau **Lleoli Patrymau** 1. Adnabod a disgrifio'r patrymau gofodol (dosbarthiadau), lleoedd ac amgylcheddau a sut y cânt eu cysylltu **Cyfathrebu** 1. Rhoi eu barn eu hunain a dod i wybod fod gan bobl farnau gwahanol am leoedd, amgylcheddau a materion daearyddol 2. Gwneud penderfyniadau am faterion daeryddol drwy wahaniaethu rhwng ffaith a barn; ystyried gwahanol safbwyntiau 3. Cyfathrebu casgliadau mewn sawl ffordd e.e. defnyddio termau daearyddol, lluniau anodedig, mapiau, diagramâu neu ICT	• Byw mewn gwledydd eraill: Un o'r ddwy ardal wrthgyferbyniol mewn gwledydd ar lefelau gwahanol o ddatblygiad y tu allan i'r DG (ardal wledig yn datblygu'n economaidd) • Byw yn fy myd i: Gofalu am leoedd a'r amgylcheddau a'r pwysigrwydd o fod yn ddinesydd byd-eang

Gweithgarwch Posibl
• Adnabod brasleoliad o gael cyfesurau (lledred, hydred, alffa niferol neu gyfeirnodau grid ffigurol). Bydd y lleoliad hwn yn dal perthynas â'r ardal wledig sy'n datblygu a ddewisir i fod yn ganolbwynt i'r astudiaeth, h.y. Sierra Leone. • Dilyn cyfarwyddiadau i ddod o hyd i leoliad manwl (pwyntiau cwmpawd 8/16, pellterau metrig) • Archwilio'r lleoliad drwy ddefnyddio'r pecyn lluniau a atodir • Dyfeisio set o gwestiynau am y fro ar gyfer ymchwil • Adnabod patrymau daearyddol dynol a ffisegol ar fap trin tir gan ddefnyddio pedwar neu bump o gategorïau e.e nodweddion naturiol, cartrefi a sefydliadau, diwydiant a masnach, hamdden a thwristiaeth, cludiant a chyfathrebu. • Defnyddio gwybodaeth i ddatblygu cyflwyniad ar y lleoliad hwn, e.e Power Point, llyfryn teithio, poster. Adnabod meini prawf llwyddiant (gyda'r disgyblion) • Rhoi gwybodaeth i'r dosbarth/ rhieni etc • Gwerthuso'r hunan a chyfoedion yn unol â'r meini prawf llwyddiant a roddwyd • Yn Sierra Leone beth sy'n debyg i'n bro ni ac yn wahanol iddi (wedi'i leinio i nodweddion dynol a ffisegol)

D&T	
Sgiliau Pwnc	**Amrediad**
Cynllunio 1. Defnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth i gael syniadau am gynhyrchion 2. Archwilio sut mae cynhyrchion sy'n bodoli yn edrych ac yn gweithredu fel ffynhonnell syniadau i'w cynhyrchion nhw'u hunain. 3. Datblygu manyleb seml ar gyfer eu cynhyrchion gan ddangos eu bwriadau a'u dynesiad 4. Dangos eu dyfalu creadigol wrth ystyried a chofnodi atebion i broblemau sy'n codi yn ystod eu llunio a'u gwneud. 5. Datblygu a chyfathrebu eu syniadau cynllunio mewn sawl ffordd gan ddefnyddio ICT a modelau lle bo'n briodol **Gwneud** 1. Dilyn eu manylebau i wneud cynhyrchion 2. Dewis defnyddiau priodol, cynhwysion, offer, arfau a thechnegau o blith nifer a roddir iddyn nhw. 3. Mesur, marcio, torri, ffurfio, uno, pwyso a chymysgu sawl math o ddefnydd a defnyddio offer, cyfarpar a thechnegau priodol. 4. Darganfod ail ffordd o wneud os yw'r cynnig cyntaf yn methu. 5. Rhoi'r gorffeniad priodol i'w cynnyrch 6. Trafod eu cynnyrch a gwerthuso'u gwaith **Mae hyn hefyd yn cwmpasu 10,11,12 (Defnyddiau anhyblyg a hyblyg)**	• Tasgau lle maen nhw'n fforio ac yn astudio cynnyrch syml i gael gwybodaeth dechnolegol a dealltwriaeth y gallan nhw'u defnyddio tra'n gwneud a dylunio. • Tasgau lle maen nhw'n cynllunio ac yn cynhyrchu gan ganolbwyntio ar wahanol ddulliau a defnyddiau. - Dylent gael cyfle: - i fod yn greadigol - i fod yn ddyfeisgar - i fedru gweithio'n annibynnol ac mewn grwpiau • Tasgau lle maen nhw'n datblygu ac yn defnyddio sgiliau a thechnegau arbennig y gellir eu defnyddio mewn dylunio a chynhyrchu. • Tasgau lle maen nhw'n dysgu am gyfrifoldeb wrth ddefnyddio deunyddiau, ac yn ystyried materion cynaladwyedd.

Gweithgareddau Posibl
Rydych yn ffoadur yn Sierra Leone Cynlluniwch a gwnewch fodel o loches i'ch cadw rhag glaw, gwynt a haul neu oerni. Dewiswch feini prawf llwyddiant. Cynllunio • Mewn grwpiau, archwiliwch wahanol fathau o loches • Nodwch ffactorau cyffredin • Cytunwch ar feini prawf llwyddiant y dasg • Lluniwch sawl prototeip i'w trafod. • Gweithiwch ar y cyd i benderfynu ar gynllun terfynol **Gwneud** • Dewisiwch o blith llawer o ddefnyddiau ac arfau • Gwnewch i'r lloches addasu fel y bo'r galw • Profwch y prototeip yn erbyn meini prawf llwyddiant • Gwnewch newidiadau pellach, e.e PVA i ddal dŵr etc • Ailbrofwch – trafodwch ac ystyriwch • A wnaed y lloches o adnoddau cynaliadwy? Sut y gwyddon ni? Beth fydd yn ddigwydd i'r defnyddiau hyn os nad ydyn nhw'n fioddiraddadwy? Rhai grwpiau i gynllunio a gwneud ffynnon seml ar llinellau tebyg.

ICT	
Sgiliau Testun	**Amrediad**
Creu a chyfleu gwybodaeth 1. Creu a chyfleu gwybodaeth ar ffurf testun, delweddau a sain, gan ddefnyddio gwahanol fathau o galedwedd a meddalwedd ICT 2. Creu amrediad o gyflwyniadau gan gyfuno amrywiaith o wybodaeth a chyfryngau e.e posteri, cyfuno testun a graffigwaith, a chyflwyniad amlgyfrwng 3. Rhanni a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel drwy gyfrwng electronig e.e. drwy ddefnyddio ebost, amgylchedd dysgu rhithwir **Dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi** 1. Trafod amcan eu tasgau, y gynulleidfa a fwriedir a'r adnoddau angenrheidiol. 2. Dewis gwybodaeth addas a chynnig barn seml am darddiad yr wybodaeth 3. Cynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i holi ac ateb cwestiynau e.e. chwilio, dosbarthu a graffio 4. Cynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i holi ac ateb cwestiynau, e.e. chwilio a graffio. 5. Cynhyrchu a defnyddio modelau neu efelychiadau i ofyn ac ateb cwestiynau. e.e. defnyddio taenlen i gyfrifo a graffio gwerthiant mewn siop. 6. Astudio effeithiau newid mewn newidynnau mewn modelau ac / neu efelychiadau i ofyn ac ateb y math "beth os ...." o gwestiwn.	**Cyflwyno i Amlgyfrwng** **Dadansoddi data a gofyn cwestiynau** **Modelau Graffigol** **Cyflwyno i daenlenni** Defnyddio ffynonellau gwybodaeth ICT a ffynonellau gwybodaeth an-ICT Defnyddio ICT i ymestyn eu dealltwriaeth o'r wybodaeth y maen nhw wedi ei hadadennill a'i phrosesu Defnyddio ICT i archwilio ac i ddatrys problemau yng nghyd-destun gwaith ar draws amrywiaeth o bynciau. Gwerthuso'u gwaith a'u Dysgu. Tynnu ar eu profiadau o ddefnyddio ICT i ffurfio barn ynghylch ei werth i gefnogi eu gwaith.

Gweithgareddau Posibl
Fe ddylai disgyblion: Siarad am fanteision amlgyfrwng, a beth sy'n gwneud tudalen wedi dylunio'n dda Trefnu testun a lluniau ar y sgrîn ac ychwanegu botymau i chwarae seiniau Cyplysu tudalennau Cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd glir a ddiddorol *Cyflwyniad yn ymwneud â* *materion yn yr ardal,* *cynlluniau lloches neu ymchwil ar Sierra Leone* **Fe ddylai disgyblion:** Siarad am eu defnydd o gronfa ddata i ddadansoddi data. Awgrymu cwestiynau y gallan nhw'u hateb drwy ddefnyddio'r gronfa ddata Defnyddio'r arfau chwilio, sortio a graffio i ateb cwestiynau Cwtogi ar y chwilio trwy ddefnyddio A chanfod gwerthoedd hynod a chamgymeriadau a gwirio gwybodaeth am hygrededd *Creu cronfa ddata ar nodweddion lloches/ ffynnon , penderfynu ynghylch defnyddio, sortio nau lunio graff i ateb cwestiwn.* **Fe ddylai disgyblion:** Defnyddio arfau llunio gwrthrychau i ddewis, ail-faintioli, lliwio a chopïo ffurfiau, creu ffurfiau a'u grwpio i wneud ffurfiau mwy cymhleth. Defnyddio model graffigol i fforio dulliau o osod gwrthrychau ar gynllun o'r ystafell ddosbarth Egluro rhai o'r gwahaniaethau rhwng defnyddio arfau lluniadu gwrthrych a rhaglen beintio *Y disgyblion i gynhyrchu cynllun ar gyfres cyfres ddiogel o lochesau gan ofalu bod y fan yn cael ei gwarchod rhag y tywydd.* **Fe ddylai disgyblion fedru dweud:** Gallaf osod data mewn celloedd Gallaf osod fformiwla i ychwanegu cynnwys dwy gell Gallaf ddefnyddio SUM i adio rhifau'n golofnau neu'n rhes. Gallaf ddefnyddio taenlen i fforio beth sy'n digwydd o newid costau. *Ydy bananas bach yn fwy o werth am arian? Gweler Kent ICT* *Mae taenlenni mewn gwyddoniaeth gwefan The Tag Teacher yn darparu dwy daenlen barod i weithio'r amgylchiadau gorau ar gyfer twf planhigion:* *www.tagteachment.co.uk/dell/*

Cyfleoedd eraill i ddatblygu'r prosiect

ESDGC – Cyfoeth a thlodi

- Trafodwch anghenion sylfaenol para'n fyw; O restr a roddir ichi, rhestrwch yr eitemau yn ôl eu pwysigrwydd i'ch helpu i bara'n fyw. (Graddio Diamond)
- Oes popeth sydd ei angen i bara'n fyw gan bawb yn y byd? Os nad oes, ble yn y byd a pham? Beth ellir ei wneud i wella pethau/ailddosbarthwch y cyfoeth a'r adnoddau i wneud pethau'n decach

Mae cyswllt agos rhwng y ddolen hon a PSE a dylid ei chynnwys wrth archwilio ymdriniaeth PSE o'r Cwricwlwm Cenedlaethol – gellir edrych i raddau ar yr holl sgiliau a geir yn fframwaith y PSE trwy brosiect o'r fath a rhoddir sylw hefyd i agweddau eraill ar yr amrywiaeth.

Datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth byd-eang

O gael cyfle i:

- gwerthfawrogi'r byd naturiol fel ffynhonnell ysbrydoliaeth
- cymryd diddordeb gweithredol mewn agweddau amrywiol ar fywyd yn yr ysgol ac yn yr amgylchedd ehangach
- datblygu agwedd gadarnhaol ar faterion tlodi a thegwch

i ddeall:

- sut y gall y penderfyniadau a wnawn yn unigol neu'n gyfunol effeithio ar yr amgylchedd
- y gall gweithredu lleol gael effaith byd-eang o achos y cyswllt rhwng lleoedd a phobl
- sut y gall tlodi ac anghyfartaledd achosi problemau

Dinasyddiaeth weithredol

- dangos parch iddyn nhw'u hunain ac eraill
- gwerthfawrogi amrywiaeth a gweld pwysigrwydd cyfleoedd cyfartal
- cymryd rhan mewn bywyd ysgol

i ddeall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y DG ar Hawliau'r Plentyn*, a chyfrifoldebau
- pwysigrwydd gwneud penderfyniadau'n ddemocrataidd
- sefyllfaoedd sy'n peri gwrthdaro a natur bwlian
- sut mae anghyfiawnder ac anghyfartaledd yn effeithio ar fywydau pobl

Datblygu moesol ac ysbrydol

I ddeall:

- sut mae gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn ffurfio ffordd pobl o fyw
- fod pobl yn gwahaniaethu yn yr hyn a gredant sy'n iawn a ddim yn iawn
- fod canlyniadau i weithredu personol.

Gwyddoniaeth: Y Ddaear Gynaladwy • Cymhariaeth o nodweddion a phriodweddau rhai deunyddiau naturiol a rhai a wnaed gan ddyn wrth adeiladu'r lloches/ffynnon • Priodweddau deunyddiau wrth eu defnyddio – i brofi am ddal dŵr, cryfder,ynysu ac ati	**Celfyddyd** • Delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes	**Saesneg** • *Kensuki's Kingdom* gan Michael Morpugo: Datblygu iaith, meddwl a sgiliau. (Pecyn Trawnewid Tonyrefail, DFES) • Ysgrifennu hyfforddi : sut i adeiladu lloches/ffynnon • Barddoniaeth/Emosiynau • Penawdau newyddion ac adroddiadau:Ffoaduriaid • Ysgrifennau Darbwyllol: Materion daearyddol • Dadl: Datblygu'r ardal • Ysgrifennu llythyron (am bwnc (y galw am ddŵr glân)
Mathemateg Rhifau negyddol, Amcangyfrif a mesur pellteroedd • Cyfesurynnau, Cyfeiriadau • Graddfa: Mapio • Ffurfiau 3D and 2D at adeiladu • Cymesuredd: Ffurfiau	**Cerddoriaeth** • Cynnwys cerddoriaeth o'r traddodiad Ewropeaidd 'clasurol', cerddoriaeth werin a phoblogaidd Cymru a tharddodiadau cerddorol eraill a diwylliannau fel y bo'r galw	**YC** • Coreograffio a pherfformio dawns sy'n berthnsol i Sierra Leone **Cornel Chwarae Rôl** • Caban neu loches a wnaed o ddeunyddiau naturiol neu gyswllt â'r gymdogaeth.

KS3 Dolenni daearyddol

Sgiliau Pwnc		Amrediad
	Dolenni sgiliau allweddol	
Dod o hyd i fannau, amgylcheddau a phatrymau **1.** dod o hyd i fannau ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau, **2.** defnyddio mapiau, cynlluniau a delweddau o fathau a graddfeydd gwahanol ac ITC i ddeall a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, **Deall lleoledd, amgylcheddau a phrosesau** **2.** egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n cydberthyn, **3.** egluro sut a pham mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid, adnabod tueddiadau ac oblygiadau yn y dyfodol, **Archwilio** **1.** adnabod a sefydlu dilyniannau o gwestiynau ar gyfer archwilio, **3.** dadansoddi a gwerthuso syniadau a thystiolaeth, ateb cwestiynau a chyfiawnhau casgliadau, **Cyfathrebu** **1.** datblygu barn a deall fod gan bobl werthoedd a gwahanol agweddau a syniadau ynghylch materion daearyddol. **2.** asesu tueddiad a	←Mathemateg PSE→ Gyrfaoedd a byd gwaith→ ←ICT Cwricwlwm Cymreig→ PSE→ ←PSE	**Astudio** –pobl a'r blaned: patrymau poblogaeth, newid a mudiadau –pobl fel defnyddwyr: yr effaith ar a'r newid mewn gweithgarwch economaidd –byd y cyfoethog a'r tlawd: datblygu economaidd mewn lleoliadau/gwledydd gwahanol –y byd enbydus: dosbarthiad byd-eang, achosion ac effeithiau digwyddiadau tectonic eithafol a digwyddiadau enbydus eraill –amgylcheddau dan fygythiad: nodweddion a'r posibiliadau o'u datblygu'n gynaladwy –dinasyddion yfory: canlyniadau yng Nghymru a'r byd ehangach o fyw'n gynaladwy byw a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd da • **ymgymryd ag:** –o leiaf un ymchwilad grŏp ac un ymchwiliad annibynnol i gwestiwn daearyddol neu bwnc –ymchwilio i 'ddaearyddiaeth yn y newyddion', digwyddiadau topical a materiol lleol a thros y byd • **gofyn ac ateb y cwestiynau** –beth yw nodweddion, prosesau a phatrymau'r

dibynadwyedd tystiolaeth ddaearyddol i bwyso a mesur dadleuon, gwneud penderfyniadau a datrys problemau. **3.** rhoi gwybod am gasgliadau a syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio termau daearyddol, mapiau, delweddau gweledol, amrediad o dechnegau daearyddol ac ICT,	←Mathemateg ←ICT PSE→	lle/amgylchedd hwn a beth sy'n eu hachosi? –sut a pham mae'r lle/amgylchedd yn newid? Beth all ddigwydd nesaf yn y tymor byr/hir a pham? –sut a pham mae'r lle/amgylchedd/nodweddion wedi eu cysylltu wrth ac yn rhyngddibynnol gyda lle/amgylchedd a nodweddion eraill? –sut mae amgylcheddau a phobl yn rhyngweithio? –sut y gall newidiadau fod yn gynaladwy a pham ei bod yn bwysig i'r lle/amgylchedd yma? –beth yw'r materion daearyddol i bobl sy'n byw yn y lleoliad hwn? Sut a pham y mae gwhaniaeth barn rhwng pobl ynghylch gwahanol faterion a beth yw fy marn i? –sut all yr hyn a wnaf i a phobl eraill wneud gwahaniaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang?
Ymchwil posib		
Disgyblion i ymgymryd ag ymchwiliadau daearyddol o gwmpas Sierra Leone. Ble mae e? Beth yw ei hinsawdd? Sut mae hyn yn effeithio ar ei nature ffisegol? Beth am y ffactorau dynol sydd wedi effeithio ar Sierra Leone? Beth all ddigwydd yn y wlad yn y dyfodol? Cyflewch y casgliadau i gynulleidfa ehangach gan ddefnyddio cyflwyniad amlgyfrwng.		

Mae cyfle o fewn Cam Allweddol Tri i edrych ar Dwymyn Lassa fel maes traws-gwricwlaidd – os oes gan ysgolion ddiddordeb yn hyn ceir syniadau yn awgrymiadau CA2 y gellir eu haddasu a'u hymgorffori, naill ai i brosiect dan arweiniad PSE neu bwnc dan arweiniad daearyddiaeth.

Cam Allweddol 3 – dolenni PSE

Sgiliau Pwnc	Amrediad
Datblygu meddwl • defnyddiwch ryw wybodaeth flaenorol i egluro cysylltiadau rhwng achos ac effaith • nodwch ac aseswch dueddiad a dibynadwyedd, *e.e. gwerthuswch negeseuon gan y cyfryngau* • ystyriwch farnau a syniadau pobl eraill i lywio barn a phenderfynwch a dewiswch ar sail eich gwybodaeth chi • defnyddiwch amrediad o dechnegau ar gyfer myfyrio personol **Datblygu cyfathrebu** • gwrandewch yn astud mewn sefyllfaoedd gwahanol gan ymateb mewn ffordd briodol • rhowch wybod yn hyderus am eich teimladau personol a'ch syniadau trwy amrediad o ddulliau priodol • mynegwch farn bendant a chyhfiawnhau safbwynt personol • cymerwch ran mewn dadl a phleidleisio ar faterion **Datblygu ICT** • chwiliwch am wybodaeth a syniadau i'w datblygu • crëwch a chyflwynwch wybodaeth a syniadau • defnyddiwch ICT yn saff ac yn gyfrifol gan ddilyn arferion diogel. **Datblygu rhif** • Chwiliwch am a dewswch ddata o wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd mewn sawl ffordd ac o ffynonellau gwahanol i gefnogi dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â PSE.	**Dinasyddiaeth weithredol** • gwerthuswch a chlodforwch amrywiaeth a chydraddoldeb cyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang • boed i anghyfiawnder, ymelwa a gwrthod hawliau dynol eich aflonyddu • cymerwch ran yn yr ysgol a'r gymuned ehangach **i ddeall:** • eu hawliau, *e.e.Confensiwn y DU ar Hawliau'r Plentyn,* ***a'r hyn sy'n ddyledus****, e.e. Estyn yr hyn sy'n ddyledus* • sut y gall pobl ifanc gael eraill i wrando ar eu syniadau a chael dylanwad ar wneud penderfyniadau? • sut i adnabod a herio'n effeithiol fynegiant o ragfarnau, hilyddiaeth ac ystyrdebu • materion byd-eang sydd yn y newyddion. **Datblyngu moesol ac ysbrydol** • dangos sensitifrwydd i werthoedd rhai eraill **i ddeall:** • yr hyn a gredant sy'n gywir ac yn anghywir a'r benbleth foesol a ddaw yn sgîl sefyllfaoedd o'r fath. • eu credoau yng nghyd-destun eraill yn y gymdeithas. **Datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth fyd-eang** • datblygu synnwyr o gyfrifoldeb personol tuag at faterion lleol a byd-eang, e.e. • derbyn fod gwerthoedd pobl yn dylanwadu ar yr hyn a gredant ac a wnânt. **I ddeall:** • materion allweddol datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth fyd-eang, e.e. newid yn yr hinsawdd a'r angen am fyfyrio am benderfyniadau personol ynghylch dull o fyw. • materion byd-eang sy'n bygwth y

	blaned, e.e. *anghyfartaledd golud a'r gwahaniaethau mewn darpariaeth iechyd* • sut y gall gwahanol farn esgor ar wrthdaro ynghylch materion byd-eang a bod yn ymwybodol o rôl carfanau annog.

Gweithgarwch posibl
Trwy weithgarwch PSE gallai'r disgyblion gysylltu gyda grwpiau sy'n cefnogi ymgyrch Trechu Twymyn Lassa (Sefydliad Iechyd y Byd – WHO) Cymdeithasau Croes Goch Prydain a Sierra Leone Soroptimistiaid Rhyngwladol De Cymru Soroptimistiaid Rhyngwladol Freetown) i wybod am eu rhan yn y gwaith a sut i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr angen i gefnogi pobl yr ardal hon. Mae angen i'r disgyblion ddadlau a thrafod y materion sy'n berthnasol i dlodi a'r problemau sy'n berthnasol i'r angen am ddŵr glân a sut i gefnogi'r teuluoedd i'w helpu i ddod o hyd i ddŵr glân.

Dolenni CA4 - PSE

Sgiliau Pwnc	Amrediad
Datblygu meddwl • defnyddio gwybodaeth flaenorol i egluro'r cyswllt rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi • dadansoddi gwybodaeth a syniadau i asesu tueddiadau, dibynadwyedd a dilysrwydd • ystyried safbwyntiau gwahanol wrth wneud penderfyniadau gwybodus a dewisiadau pwrpasol • defnyddio amrediad o dechnegau wrth fyfyrio **Datblygu cyfathrebu** • gwrando'n sylwgar mewn nifer o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol • mynegi teimladau personol a barn mewn amrediad eang o sefyllfaoedd trwy ystod o ddulliau priodol • gwerthfawrogi, myfyrio a gwerthuso safbwyntiau eraill yn feirniadol. **Datblygu ICT** • dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu. • creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. • defnyddio ICT yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn annibynnol, gan gydymffurfio â rheoliadau gwarchod data a dilyn ymarfer diogel. **Datblygu rhif** • dod o hyd i ddata rhifol o ffynonellau ysgrifenedig a graffiau • dewis o blith a dehongli nifer o ddulliau o gyflwyno data, gan gynnwys graffiau cylch, graffiau gwasgariad a graffiau llinell i helpu i ddeall materion sy'n berthnasol i PSE. **Gweithio gydag eraill** • gweithio'n annibynnol a chydag eraill i blanio amrediad cyflawn o dasgau • gwerthuso a chanfod yn hyderus ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol o wybodaeth, help a chyngor.	**Dinasyddiaeth weithredol** • datblygu parch atyn nhw'u hunain ac eraill. • gweld gwerth mewn amrywiaeth a chyfle cyfartal, a boed i anghyfiawnder, ymelwa a gwrthod hawliau dynol eich aflonyddu • chwarae rhan ymarferol yn y gymuned. **ac i ddeall:** • egwyddorion Datganiad Hawliau Dynol Cyffredinol • sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rthyngwladol *e.e. y CU* • y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol • pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cyswllt rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau nhw'u hunain • pwysigrwydd dod o hyd i wybodaeth ddiduedd, gan gynnwys y rhyngrwyd, a bod yn barod i herio barnau a ddarlledir gan y cyfryngau • sut i herio rhagfarnau, hilyddiaeth a ac ystrydebau'n ymosodol • materion a digwyddiadau lleol a byd-eang cyfoes **Datblygu moesol ac ysbrydol** • ystyried cwestiynau a materion sy'n ymwneud ag ystyr a diben bywyd **I ddeall:** • sut mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar adnabod yr hunan a'r ffordd o fyw • y ffactorau sy ynghlwm wrth wneud penderfyniadau moesol • ystod y gwerthoedd a'r egwyddorion y mae pobl yn byw wrthyn nhw

Sgiliau Pwnc	Amrediad
	Datblygu cynaladwy a diasyddiaeth fyd-eang • adnabod hawliau cenedlaethu i ddod i gael eu hanghenion sylfaenol • cymryd diddordeb personol dros newid eu ffyrdd o fyw mewn ymateb i faterion lleol a byd-eang **ac i ddeall:** • rhyng-ddibyniaeth systemau economaidd byd-eang ac effaith datblygu dynol ar systemau naturiol. • y tensiynau rhwng datblygu economaidd, datblygu cynaladwy a ac anghenion dynol sylfaenol, e.e. achosion anghyfartaledd o fewn a rhwng cymdeithasau.

Gweithgareddau posibl

Fel gyda CA3
Trwy weithgarwch PSE gallai'r disgyblion ffurfio dolenni gyda grwpiau sy'n cefnogi ymgyrch Trechu Twymyn Lassa.
(Sefydliad Iechyd y Byd (WHO))
Cymdeithasau Croes Goch Prydain a Sierra Leone
Soroptimistiaid Rhyngwladol De Cymru
Soroptimistiaid Rhyngwladol Freetown) i wybod am eu rhan yn y gwaith a sut i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr angen i gefnogi pobl yr ardal hon.
Mae angen i'r disgyblion ddadlau ynghylch a thrafod y materion sy'n berthnasol i dlodi a'r problemau sy'n berthnasol i'r angen am ddŵr glân a'r ffordd orau o ofalu bod cymorth yn cyrraedd y bobl mwyaf anghennus – sut y gall sefydliadau elusennol roi mwy o wybodaeth i eraill am yr angen i ddatblygu gwledydd a darparu cyflwyniad i grwpiau cymunedol lleol ynghylch sut y gallan nhw gefnogi ymgyrchoedd o'r fath.

Ôl 16 dolenni PSE

Sgiliau pwnc	Amrediad
Datblygu meddwl • defnyddio gwybodaeth flaenorol i egluro'r cysylltiad rhwng achos ac effaith, a chyfiawnhau rhagfynegi • gwerthuso gwybodaeth a syniadau i asesu tueddiad, dibynadwyedd a dilysrwydd • mewn sefyllfaoedd mwy haniaethol, ystyried sawl safbwynt i gasglu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau • defnyddio amrediad o dechnegau i fyfyrio **Datblygu cyfathrebu** • cyfleu safbwyntiau cymhleth a mynegi barn ynghylch nifer mawr o sefyllfaoedd trwy amrediad o ddulliau priodol • Gwrando, ystyried a gwerthuso safbwynt rhywun arall yn feirniadol ac ymateb yn briodol **Datblygu ICT** • canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau • creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau • defnyddio ICT yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn annibynnol, mewnosod ymddygiadau priodol a thechnegau mewn gweithgarwch i ofalu eu bod yn saff a chyfreithlon bob amser. **Datblygu rhif** • dewis sut i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau. • coladu a defnyddio data perthnasol i gefnogi dealltwriaeth o faterion sy'n berthnasol i PSE deall materion sy'n berthnasol i PSE	**Dinasyddiaeth weithredol** • dangos hunan-barch a pharch i eraill ac i amrywiaeth • ymrwymo i gymryd rhan weithredol yn y Gymuned **i ddeall:** • y cyfleoedd i gymryd rhan yn y prosesau democrataidd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. • sut y gall unigolion a grwpiau gwirfoddol weithio dros newid yn lleol, yn geneldaethol ac yn rhyngwladoll • sut y gall barn gyhoeddus, grwpiau lobïo a'r cyfryngau gyfrannu at wneud penderfyniadau democrataidd • materion cyfoes lleol a chenedlaethol. **Hunan-les iach ac emosiynol ac i ddeall:** • profiadau bywyd sy'n gwella neu'n amharu ar hunan-barch a dod i wybod am y ffyrdd gorau o ymdopi gyda galwadau sefyllfaoedd o'r fath • rôl y wlad mewn hybu iechyd y cyhoedd a budd emosiynol . **Datblygu moesol ac ysbrydol** **I ddeall:** • cysyniad cyfrifoldeb moesol a'r angen am gyfranogi o werthoedd • y problemau moesol a moesegol y mae cymndeithas ac unigolion yn eu hwynebu a myfyrio uwch sut y gellir datrys y fath faterion • goblygiadau moesol, cymdeithasol ac amgylcheddol darganfyddiadau gwyddonol a datblygu technolegol **Datblygu cynaladwy a dinasyddiaeth byd-eang** • dangos trwy weithred gyfrifoldeb personol fel dinesydd byd-eang • gwerthfawrogi pam mae ecwiti a chyfawnder yn hanfodol mewn cymuned gynaladwy **i ddeall:** • her ac effeithiau'r hollfyd a

Sgiliau pwnc	Amrediad
	rhyngddibyniaeth byd-eang ar gymunedau mewn gwahanol rannau o'r byd • y galw am gydweithredu rhyngwladol a gwerthfawrogi'r rôl a gaiff ei chwarae gan sefydliadau an-llywodraethol
Gweithgarwch posibl	
Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc ôl- 16 yn dechrau datblygu eu synnwyr o ymwybyddiaeh wleidyddol a thegwch cymdeithas – dylai defnyddio gwybodaeth Powerpoint (CA/ÔI-16) esgor ar ddadlau ac ystyriaeth o'r materion sy'n wynebu Sierra Leone a Gorllewin Affrica – bydd gwahoddiadau i sefydliadau sy'n gyd-bartneriaid sy'n gweithio ar ymgyrch Trechu Twymyn Lassa hybu mwy o drafod a'r angen am greu ymwybyddiaeth i godi deunyddiau i'w defnyddio'n ehangach.	